

At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu
Corfforaethol

Dyddiad: 10 Rhagfry, 2013

Rhif Union: 01824712575

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD MERCHER, 18 RHAGFYR 2013** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd

AGENDA

RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG A'R CYHOEDD FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dylai Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu rai sy'n rhagfarnu gydag unrhyw fater a nodwyd y dylid ei ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2013.

5 ADRODDIADAU RHEOLEIDDIO MEWNOL A DDERBYNIWYD YN DDIWEDDAR (Tudalennau 17 - 44)

- (i) Derbyn copi o lythyr Asesu Gwelliant gan Swyddfa Archwilio Cymru (copi ynghlwm)
- (ii) Derbyn Adroddiad gan Brif Reolwr: Cefnogi Busnes ynglŷn â Gwerthusiad ac Adolygiad Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol 2012-13 (copi ynghlwm).

6 DIWEDDARIAD DRAFFT Y GYLLIDEB (Tudalennau 45 - 46)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) sy'n rhoi'r trydydd diweddariad o ran proses pennu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2014/15.

7 STRATEGAETH RHEOLI GWYBODAETH (Tudalennau 47 - 72)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad (copi ynghlwm) ynglŷn â'r fframwaith newydd ar gyfer rheoli asedau gwybodaeth.

8 NEWID TREFNIADAU RHEOLI ARCHWILIO MEWNOL (Tudalennau 73 - 76)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad (copi ynghlwm) ynglŷn â newid arfaethedig i reolwyr atebol ar gyfer Pennaeth Archwilio Mewnol ac adleoli tîm o Gyllid ac Asedau i Gynllunio Busnes a Pherfformiad.

9 ADRODDIAD COFRESTR RISG GORFFORAETHOL (Tudalennau 77 - 90)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad (copi ynghlwm) ynglŷn ag adolygu Cofrestr Risg Gorfforaethol.

10 INDEMNIAID AR GYFER AELODAU (Tudalennau 91 - 98)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (copi ynghlwm) ynglŷn â chynnig ar gyfer y 22 awdurdod unedol i gytuno ar gyfyngiad gwirfoddol ar lefel yr indemnïad sydd ar gael i aelodau etholedig o ran gweithgareddau yn ymwneud â thorri Cod Ymddygiad honedig.

11 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIAD MEWNOL (Tudalennau 99 - 126)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi ynghlwm) sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd diweddaraf y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, o ran darparu'r gwasanaeth, darpariaeth sicrwydd, adolygiadau sydd wedi eu cwblhau, perfformiad ac effeithiolrwydd o ran gwelliannau.

12 ADBORTH CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL

Derbyn adroddiad ar lafar gan y Cynghorydd M.L. Holland ynglŷn â Chyfarfod Cydraddoldeb Corfforaethol.

**13 RHAGLEN GWAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU
CORFFORAETHOL** (Tudalennau 127 - 130)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor (copi ynghlwm).

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Brian Blakeley
Stuart Davies
Peter Duffy

Martyn Holland
Gwyneth Kensler
Jason McLellan

Aelod Lleyg

Paul Whitham

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 6 Tachwedd 2013 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Stuart Davies, Peter Duffy, Martyn Holland, Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd) a/ac Jason McLellan (Cadeirydd) a Mr P. Whitham (Aelod Lleyg).
Roedd y Cynghorwyr M. Ll. Davies a J. Thompson-Hill yn bresennol fel sylwedyddion.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Rheolwr Archwilio (BS), Uwch Archwilydd (LL), Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro (SA), Rheolwr Eiddo (DL), Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (AV a GB) a Gweinyddwr y Pwyllgor (CIW).

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Nodwyd y cysylltiadau canlynol o ran eitemau busnes i'w hystyried yn y cyfarfod.

Eitem 5 ar y Rhaglen: Y diweddaraf am y gyllideb – bu i'r Cynghorwyr G.M. Kensler a M.Ll. Davies ddatgan cysylltiad personol. Y rheswm am hyn oedd bod y ddau Gynghorydd yn derbyn Pensiynau Llywodraeth Leol.

Eitem 6 ar y Rhaglen: Protocol ar gyfer Aelodau sy'n Gynrychiolwyr ar Gyrrff Allanol - bu i'r Cynghorydd M.Ll. Davies ddatgan cysylltiad personol. Y rheswm am hyn oedd bod y Cynghorydd dan sylw'n aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

3 MATERION BRYN

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid eu hystyried yn y cyfarfod, ym marn y Cadeirydd, fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar:-

(i) 4 Medi, 2013.

Materion yn codi:-

6. Y diweddaraaf am y gyllideb - dywedwyd wrth Aelodau y byddai Maes Parcio Quay Street, Rhyl yn ail-agor ac y byddai gwybodaeth am yr incwm a'r ffigyrau gwariant ar gyfer y maes parcio'n cael eu dosbarthu gan Bennaeth Cyllid ac Asedau.

PENDERFYNWYD – *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai dilys a chywir.*

(ii) 27 Medi, 2013.

PENDERFYNWYD – *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai dilys a chywir.*

5 Y DIWEDDARAF AM Y GYLLIDEB

Mewn adroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol gan Bennaeth Cyllid ac Asedau, cafwyd yr wybodaeth ddiweddaraaf am y broses o bennu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2014/15, a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y set nesaf o arbedion i'w cyflwyno i'r Cyngor Sir.

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol rôl o oruchwylio'r broses o bennu'r gyllideb, ac mae Atodiad 1 yn cynnwys manylion ynghylch yr arbedion a gynigir.

Roedd fersiwn drafft o Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer Cymru 2014/15 wedi ei gyhoeddi ar 16 Hydref, 2013. Y prif ffigyrau oedd:-

- Gostyngiad ariannol o 3.5% ar gyfartaledd drwy Gymru -
- Gan Sir Ddinbych oedd y setliad gwaethaf yng Nghymru sef - 4.6%
- Roedd mecanwaith lleddfu wedi ei ddefnyddio i leihau'r effaith yn 2014/15 ond byddai'n cael effaith yn 2015/16

Cyfeiriwyd at ansicrwydd ynglŷn â rhai manylion yn y Setliad, yn benodol yn ymwneud â chyllid y Cynllun Lleihau Treth y Cyngor a'r ymdriniaeth o grant ychwanegol Amddifadedd Disgyblion mewn perthynas â'r angen i ddiogelu cyllidebau ysgolion. Y gobaith oedd y byddai manylion yn cael eu hegluro yn dilyn cyfarfod o Gymdeithas Trysoryddion Cymru ar 25 Hydref. Yn ogystal â hyn disgwyliad am adolygiad actiwaraidd o Gynllun Pensiwn Clwyd a rhagwelid y byddai adolygiad yn cynyddu costau cyflogwyr. Roedd y Setliad drafft a phwysau eraill wedi golygu bod targed o tua £8.5 wedi ei osod ar gyfer arbedion, er y gallai hwn newid wrth i fanylion ddod yn gliriach.

Yn sgil y broses gyllidebol roedd y Cyngor wedi cymeradwyo arbedion o £1.7m ar gyfer 2014/15 ym Medi, ac ar 21 Hydref, cyflwynodd Gweithdy Aelodau gynigion ychwanegol yn dod i £4.5m. Roedd Aelodau Arweiniol wedi darparu manylion am yr arbedion, yr effaith ac asesiad risg a byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor

yn Rhagfyr i'w cymeradwyo. Gallai arbedion pellach i gydbwysu cyllideb 2014/15 gael eu hystyried ar wahân yng Ngweithdy nesaf yr Aelodau yn Rhagfyr, a'u cyflwyno i'r Cyngor eu cymeradwyo yn Ionawr neu Chwefror 2014.

Byddai'n bwysig sicrhau bod Aelodau'n cael cyfle i ofyn cwestiynau neu leisio pryderon ynglŷn ag unrhyw un o'r arbedion a oedd yn cael eu cynnig ar gyfer eu cymeradwyo yn Atodiad 1. Roedd yr Aelod Arweiniol a Phennaeth Cyllid ac Asedau wedi cytuno i drafod unrhyw un o'r cynigion yn fanwl cyn eu cyflwyno i'r Cyngor. Roedd y gyllideb yn sail i ddarparu holl flaenoriaethau a gwasanaethau'r Cyngor, ac roedd yr Atodiad yn nodi arbedion o £4.5m ar gyfer 2014/15. Cytunwyd yn flaenorol ar arbedion o £1.7m a'r targed o ran arbedion ar gyfer 2014/15 fyddai £8.5m.

Cyflwynwyd copi o'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn y cyfarfod gan Bennaeth Cyllid ac Asedau a thynnwyd sylw at y materion a'r pwyntiau amlwg canlynol. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, eglurodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau, er gwaethaf y datganiad yn Adran Gyllid Gwefan Llywodraeth Cymru, fod gan ALI lai o ddisgresiwn ynglŷn â sut yr oedden nhw'n gwario eu harian, gan gyfeirio'n benodol at y gwahaniaethau yn gysylltiedig â chlustnodi cyllid, diogelu ysgolion a'r gyfarwyddeb gan LC i gynyddu cyllid i ysgolion o 0.9%. Crynhowyd meysydd eraill sy'n dylanwadu ar y gyllideb gan Bennaeth Cyllid ac Asedau. Roedd y rhain yn cynnwys:-

- effaith Cynllun Lleihau Treth y Cyngor.
- nifer y bobl yn y Sir a oedd yn derbyn budd-daliadau, y math o hawlwr a lefel y cymorth a ddarparwyd.
- ansicrwydd ynglŷn â Chynllun Treth y Cyngor.
- peidio â chlustnodi cyllid ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn y flwyddyn ariannol sy'n dod.
- cynnig Llywodraeth Leol i Lywodraeth Cymru i adolygu grantiau a dderbyniwyd er mwyn cael mwy o hyblygrwydd.
- effaith Grant Amddifadedd Disgyblion.
- cynnydd arfaethedig o 2% yng nghyllideb yr Awdurdod Tân ac Achub.
- Canlyniadau cynnydd yn nisgwyliad oes hawlwr Cronfa Bensiwn Clwyd.
- Manylion Treth Ystafelloedd Gwely, Newidiadau Lles heb gael cymaint o effaith ag a ragwelid.
- Cyfrif Refeniw Tai, dyddiad gweithredu cymhorthdal tai wedi newid o Ebrill, 2014 i Ebrill, 2015.
- manylion am braesept Heddlu Gogledd Cymru ddim ar gael eto.
- wedi cael cadarnhad na fyddai unrhyw effaith ar y gyllideb yn sgil y penderfyniad i ohirio cau St Brigid's.

Darparodd Pennaeth Cyllid ac Asesu fanylion yr amserlenni arfaethedig ynglŷn â'r broses gyllidebol a thynnwyd sylw at yr anawsterau i sicrhau cydbwysedd rhwng darparu gwybodaeth ac amseriad cyfarfodydd. Eglurodd y byddai'r adroddiad a oedd yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 3 Rhagfyr, 2013 i'w gymeradwyo, ac y byddai'r Gweithdy a gynhelir ar 9 Rhagfyr, 2013 yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r gwahaniaeth o £2m. Teimlai'r Cadeirydd y dylid dosbarthu'r papurau i'w hystyried cyn dyddiad y Gweithdy i sicrhau nad oedd y drafodaeth yn cael ei llesteirio. Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd M.LI. Davies,

cytunwyd y byddai'r papurau o'r Gweithdy diweddar yn cael eu dosbarthu i'r holl Aelodau nad oedd yn bresennol. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o sicrhau presenoldeb Aelodau yn y Gweithdy nesaf, ac adborth yn dilyn hynny.

Cytunodd y Pennaeth Cyllid ac Asesu i ddarparu ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd P.C. Duffy ynglŷn â p'un ai a oedd y Cyngor yn gwario llai ar drwsio eu tai o ganlyniad i'r buddsoddiad diweddar.

Ar ôl trafodaeth bellach:-

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn:-

(a) derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf a'r camau nesaf arfaethedig, ac yn

(b) cymeradwyo'r cam nesaf o arbedion a gynigir gan y Cyngor Sir i'w cymeradwyo'n ffurfiol yn Rhagfyr, 2013.

(PM i Weithredu)

6 PROTOCOL AR GYFER AELODAU SY'N GYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL

Dosbarthwyd copi o adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y gallai Aelodau fod ar nifer eang o gyrff allanol a oedd yn cynnwys sefydliadau cymunedol, ymddiriedolaethau elusennol, clybiau chwaraeon a hamdden, cwmnïau a chymdeithasau tai. Gallai Aelod gael ei benodi i eistedd ar y gyrff hyn gan y Cyngor neu mewn achosion eraill, gallent gael eu penodi'n annibynnol heb unrhyw ymwneud gan y Cyngor.

Roedd Aelodau a benodid i eistedd ar gyrff allanol gan y Cyngor yn cael eu trin yn wahanol o dan y Cod Ymddygiad i'r rhai a benodid yn annibynnol heb unrhyw ymwneud gan y Cyngor i'r graddau yr oedd datgan cysylltiad dan sylw, gan gyfeirio'n benodol at y diffiniad o gysylltiadau sy'n rhagfarnu ac eithriadau. Gallai unrhyw Aelod a benodid i gorff allanol gan y Cyngor elwa ar indemniti gan y Cyngor mewn rhai amgylchiadau, ac ni fyddai hyn yn berthnasol i Aelod a benodid yn annibynnol heb ymwneud gan y Cyngor. Gallai presenoldeb Aelodau mewn cyfarfod o gorff allanol, pe bai wedi ei benodi gan y Cyngor, gael ei gydnabod fel presenoldeb gan Aelod i bwrpas Deddf Llywodraeth Leol 1972, wrth benderfynu a fyddai Aelod yn cael ei ddiarddel oherwydd diffyg presenoldeb. Teimlai Mr P. Whitham na fyddai Aelod wedi ei benodi gan yr ALI, neu'n annibynnol, i gorff allan yn cael ei ystyried gan y Cyngor yn lle hyn.

Byddai rôl Aelod mewn perthynas â chorff allanol yn amrywio yn dibynnu ar y corff. Byddai rhai Aelodau'n dod yn gyfarwyddwyr cwmnïau, yn ymddiriedolwyr i ymddiriedolaethau elusennol, yn aelodau o bwyllgorau rheoli gyda'r gallu i wneud penderfyniadau neu byddent yn gallu bod yn arsylwyr neu gynrychiolwyr heb unrhyw allu i wneud penderfyniadau. Roedd gwahanol rwymedigaethau cyfreithiol yn perthyn i'r gwahanol rolau a gallent fod â gwahanol lefelau o indemniti.

Roedd gan Aelodau rôl bwysig o ran cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol a gallai'r Cyngor elwa fel a ganlyn o ymwneud Aelodau:-

- Darparu gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd, na fyddai ar gael fel arall.
- Sicrhau atebolrwydd lleol neu gyfreithlondeb democrataidd wrth benodi cynrychiolydd etholedig.
- Sicrhau y gellir cynnal perthynas dda â'r corff.
- Darparu prosiect partneriaeth sy'n galw am fewnbwn gan gyrff neu grwpiau cymunedol eraill.
- Diogelu buddsoddiad neu ased y Cyngor, h.y. os yw'r Cyngor yn darparu grant neu arian i ddarparu gwasanaeth.
- Denu cyllid allanol na fyddai ar gael i'r Cyngor ar ei ben ei hun.

Er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth o'r Cyngor ar gyrff allanol yn dal yn berthnasol ac yn sicrhau'r manteision a amlinellwyd, dylai'r rhai a benodir ddarparu gwybodaeth ac adroddiadau'n achlysurol i'r Cyngor ar weithgareddau'r sefydliad. Byddai hefyd yn bwysig sicrhau bod y Cyngor yn ymwybodol o'r defnydd a gâi ei wneud o'r cyllid yr oeddent wedi ei ddarparu.

Roedd nifer o ddulliau o adrodd yn ôl wedi eu hamlinellu. Roedd rhai Aelodau'n adrodd yn ôl trwy nodiadau briffio rheolaidd a chylchlythyrau Aelodau, roedd eraill yn adrodd yn ôl yn fwy ffurfiol naill ai trwy adroddiadau i'r Cabinet, y Pwyllgor Archwilio, y Cyngor neu'r Cyngor Anffurfiol. Roedd yr adroddiad yn awgrymu na fyddai'n addas mabwysiadu un dull i bawb, gan fod rhai cyrff allanol yn cael effaith fwy sylweddol ar y Cyngor nag eraill. Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd M.LI. Davies, eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd mewn achosion lle'r oedd mwy nag un Aelod wedi ei benodi i gorff allanol, y gellid dod i gytundeb bod un Aelod yn adrodd yn ôl i'r Cyngor, ac y gellid anfon copïau o gofnodion cyfarfodydd y corff allanol trwy e-bost.

Roedd rhestr o Aelodau a benodwyd ar gyrff allanol wedi ei chynnwys yn Atodiad 1. Roedd rhai cyrff allanol yn cael mwy o effaith ar gymunedau a blaenoriaethau'r Cyngor nag eraill, gyda rhai'n derbyn cymorth ariannol sylweddol gan y Cyngor ac eraill yn cael llai neu ddim o gwbl. Wrth ystyried gofynion adrodd eglurwyd y gallai Aelodau ystyried y fforwm a'r amllder mwyaf addas ar gyfer adroddiadau.

Roedd arferion ALI eraill yn amrywio. Nid oedd gan nifer o ALI unrhyw fecanwaith ffurfiol i Aelodau adrodd ar eu gweithgareddau, tra bod eraill yn gofyn i Aelodau gwblhau adroddiadau templed proforma a gâi eu dosbarthu er gwybodaeth i gyd Gynghorwyr neu eu gosod mewn un lleoliad yr oedd gan Gynghorwyr fynediad iddo. Mewn rhai achosion roedd ALI yn categoreiddio cyrff allanol y penodwyd Aelodau iddynt ac roedd ganddynt wahanol ofynion adrodd yn dibynnu ar y categori yr oedd y corff allanol wedi ei osod ynddo.

Roedd enghreifftiau o gategoriâu a ddefnyddiwyd mewn manau eraill yn cynnwys:-

- Cyrff sy'n gosod praesept y mae'r Cyngor yn ei gasglu
- Cyrff y mae'r Cyngor yn talu tanysgrifiad i fod yn aelod ohono
- Cyrff sy'n derbyn grant neu gymorth ariannol arall gan y Cyngor
- Yr holl gyrff allanol eraill

Gallai cynrychiolwyr ar gyrff allanol orfod cwblhau adroddiadau proforma blynyddol a allai fod yn destun adroddiad corfforaethol i'r Cabinet pan mae'n ystyried penodiadau i gyrff allanol. Os oedd gan y Cyngor fwy nag un cynrychiolydd ar gorff, gellid paratoi un adroddiad y cytunwyd arno. Gallai ALI ofyn am adroddiadau ychwanegol, manylach ar gyfer rhai cyrff neu gategorïau o gyrff a nodi fforwm ar gyfer yr adroddiadau hynny i gyfarfodydd o'r Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M.L. Holland, cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod yn rhaid i ALI gael trefniadau i Aelodau gyflwyno Adroddiadau Blynyddol ar eu gweithgareddau, ond nid oedd yn fandadol i'r adroddiadau hynny gael eu cwblhau. Roedd adroddiad proforma wedi ei ddarparu ar gyfer yr adroddiadau hynny a gellid dosbarthu adroddiad blynyddol ar broforma cyrff allanol gydag Adroddiadau Blynyddol Cynghorwyr er mwyn gallu eu cwblhau'r un pryd. Cadarnhaodd Mr P. Whitham y byddai'n anfon awgrymiadau ymlaen i ystyried eu cynnwys yn y proforma.

Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd nad oedd cynrychiolwyr ar gyrff allanol yn cael eu penodi o anghenraid i weithredu er budd y Cyngor yn unig. Byddai gan Ymddiriedolwyr a Chyfarwyddwyr ddyletswyddau cyfreithiol i'r cyrff hynny y penodwyd hwy'n aelodau ohonynt. Gallai Aelodau a benodid i'r cyrff hynny gael eu hymrwymo gan rwymedigaethau cyfrinachedd i'r corff allanol perthynol, a allai arwain at beidio â chynnwys rhai agweddau o fusnes y corff mewn adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fanylion y Mesur Llywodraeth Leol Drafft, a oedd yn nodi bod gan ALI ddyletswydd i gynnwys proses graffu ar gyrff dynodedig yn eu trefniadau gweithredol, ac amlinellodd y broses ymgynghori ar gyfer nodi cyrff dynodedig.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at gategoreiddio adroddiadau a'r persbectif o safbwynt risg llywodraethu a allai gynnwys materion yn ymwneud ag agweddau ariannol ac enw da'r Awdurdod. Cyfeiriodd hefyd at berthnasedd pecyn cymorth y bartneriaeth a llywodraethu partneriaeth yn gyffredinol.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y materion a amlinellwyd yn yr adroddiad a nodi eu dewisiadau er mwyn ymgynghori'n llawnach â'r holl Aelodau etholedig. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd cytunwyd gofyn i Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gategoreiddio'r Cyrff Allanol perthynas a chyflwyno adroddiad pellach yng nghyfarfod fis Ionawr, 2014 o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn:-

(a) *derbyn a nodi cynnwys adroddiadau Aelodau ar eu gweithgareddau gyda chyrrff allanol, a*

(b) *Gofyn i Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraataidd baratoi adroddiad pellach, yn categoreiddio'r Cyrff Allanol perthynol, i'w gyflwyno yng nghyfarfod fis Ionawr, 2014 o'r Pwyllgor.*

(GW i weithredu)

7 CYNLLUN GWEITHREDU FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Roedd adroddiad gan Bennaeth Archwilio Mewnol, a oedd yn darparu cynllun gweithredu wedi ei ddiweddarau yn sgil adolygiad o fframwaith llywodraethu'r Cyngor, a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2012/13, wedi ei ddsbarthu'n flaenorol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Archwilio a chadarnhaodd fod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn monitro Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn rheolaidd fel rhan o drefniadau llywodraethu cyffredinol y Cyngor i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'r gwelliannau angenrheidiol yn effeithiol. Roedd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys asesiad blynyddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor a Datganiad Llywodraethu Blynyddol a oedd yn tanlinellu unrhyw wendidau llywodraethu o bwys. Roedd hefyd yn tynnu sylw at feysydd pellach, er nad oedd ganddynt wendidau sylweddol, oedd yn dal angen eu gwella.

Roedd y Grŵp Llywodraethu'n rheoli proses y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ac yn datblygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn barhaus yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd y Grŵp yn cynnwys:-

- Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraataidd
- Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad
- Pennaeth Cyllid ac Asedau
- Pennaeth Archwilio Mewnol

Roedd y Grŵp Llywodraethu wedi datblygu'r Cynllun Gweithredu yn Atodiad 1, ac wedi ei ddiweddarau ers yr adroddiad blaenorol i nodi'r cynnydd hyd yma.

Mewn ymateb i'r siom a fynegwyd gan Mr P. Whitham ynglŷn â nifer y cyfeiriadau at amserlenni yn Atodiad 1 a nodwyd fel rhai amherthnasol, pwysleisiodd y Rheolwr Archwilio mor bwysig oedd canolbwyntio ar statws Coch/Ambr/Gwyrdd oherwydd mewn rhai achosion efallai na fyddai angen gweithredu pellach.

Ar ôl trafodaeth fer ar yr adroddiad:-

PENDERFYNWYD - *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol drafft.*

(IB a BS i weithredu)

8 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Roedd copi o adroddiad gan Bennaeth Archwilio Mewnol wedi ei ddsbarthu'n flaenorol.

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio'r adroddiad ar gynnydd diweddaraf y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaeth, rhoi sicrwydd, cwblhau adolygiadau, perfformiad ac effeithiolrwydd o ran hybu gwelliannau.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â

- darparu'r Cynllun Sicrwydd ar gyfer 2013/14
- adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar a gyflwynwyd
- ymateb rheolwyr i'r materion a godwyd
- perfformiad Archwilio Mewnol

Eglurodd y Rheolwr Archwilio fod Atodiad 1 yn cynnwys dadansoddiad o waith a wnaed gan Archwilio Mewnol yn ystod 2013/14, o'i gymharu â'r Strategaeth Archwilio Mewnol. Roedd yn cynnwys sgorau sicrwydd a nifer y materion a godwyd ar gyfer yr adolygiadau a gwblhawyd, y diffiniadau a ddefnyddiwyd i roi sicrwydd ar gyfer ein harchwiliad a'r sgorau a ddefnyddiwyd i asesu'r lefelau risg ar gyfer y materion a godwyd.

Roedd yr adroddiadau canlynol a gyflwynwyd ers Medi 2013 wedi eu dosbarthu:-

- Cytundebau Setliad
- Dirprwy Cyllid (Llys Gwarchod))
- Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun

Roedd Crynodebau Gweithredol a Chynlluniau Gweithredu wedi eu hatodi i'r adroddiad er gwybodaeth bellach.

Roedd ymateb rheolwyr i faterion a godwyd gan Archwilio Mewnol wedi eu crynhoi ac roedd y rhan fwyaf o adroddiadau Archwilio Mewnol yn nodi risgiau a gwendidau o ran rheoli. Roedd y rhain wedi eu sgorio fel risgiau critigol, mawr neu gymedrol ac roedd rheolwyr wedi cytuno ar gamau i fynd i'r afael â'r risgiau, yn cynnwys cyfrifoldebau ac amserlenni. Adroddwyd ynghylch pob achos lle'r oedd rheolwyr wedi methu ag ymateb i waith dilynol, neu os oeddent yn mynd dros y dyddiad gweithredu y cytunwyd arno o fwy na thri mis. Byddai'r Pwyllgor yn penderfynu a oedd angen gweithredu pellach.

Roedd gwybodaeth ynglŷn ag adroddiadau y rhoddwyd sylw dilynol iddynt wedi ei chynnwys yn yr adroddiad. Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio fod dadansoddiad pellach o'r holl faterion y rhoddwyd sylw dilynol iddynt wedi ei gynnwys yn yr adroddiad, yn unol â'r cais mewn cyfarfod blaenorol. Ni ddaeth unrhyw ymateb i law i'r gwaith dilynol ar dri Chynllun Gweithredu y gofynnwyd amdano ar 1 Hydref 2013. Anfonwyd neges atgoffa ar 23 Hydref, ond ni chafwyd unrhyw ymatebion mewn pryd ar gyfer yr adroddiad cynnydd. Fodd bynnag, dywedodd y Rheolwr Archwilio

fod cadarnhad o gynnydd hyd yma wedi ei dderbyn ym mhob achos yn dilyn terfyn amser yr adroddiad. Roedd manylion am Berfformiad Archwilio Mewnol wedi ei gynnwys yn yr adroddiad gyda manylion ychwanegol am ganran y gwaith sicrwydd hanfodol, fel y gofynnwyd yn flaenorol.

Rhoddodd y Rheolwr Archwilio grynodedb o bob adroddiad a ddisbarthwyd:-

(i) Cytundeb Setliad:-

Wrth ddadansoddi taliadau cyflog ar gyfer 2012/13, fel rhan o brofi'r sicrwydd ariannol, dywedwyd wrth Aelodau fod chwe thaliad wedi eu nodi fel cytundebau setliad. Roedd y gwaith a wnaed wedi cynnwys dadansoddi ffeiliau achos ac ystyried y broses gyffredinol i sicrhau bod:-

- gan y Cyngor bolisi / cod ymarfer a gweithdrefnau ffurfiol i ddelio â 'chytundebau setliad';
- bod cytundebau o'r fath yn cael eu hystyried a'u cymeradwyo'n ffurfiol, yn seiliedig ar achos busnes cadarn;
- gofyn am gyngor perthnasol ym mhob achos; a
- bod pob setliad a wnaed yn ystod 2012/13 yn rhesymol a dilys.

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (CD:ECA) at God ACAS a phwysleisiodd fod 'cytundebau setliad' yn ddull cydnabyddedig o ddelio â materion cyflogaeth, yn y sector preifat a chyhoeddus, ac nad oeddent yn cael eu hystyried fel rhywbeth i ddisodli arfer rheoli da. Eglurwyd bod y cytundebau wedi eu defnyddio'n briodol a'u defnyddio ar y cyfan fel y dewis olaf. Hefyd dywedwyd wrth Aelodau fod yr Adolygiad Archwilio Mewnol wedi bod o fudd mawr ac wedi nodi'r angen i ffurfioli'r trefniadau ar gyfer dechrau a chymeradwyo cytundebau setliad. Byddai ffigyrau a ddyfynnwyd yn y wasg wedi cynnwys taliadau cytundebol y byddai gan weithwyr hawl iddynt waeth beth fyddai'r cytundeb setliad, ac eglurwyd y byddai'n gamarweiniol cyfeirio at "gytundeb setliad" fel "gorchmynion cau ceg".

Roedd y Farn Archwilio wedi nodi'r angen i'r Cyngor ffurfioli ei drefniadau ar gyfer delio â 'chytundebau setliad.' Ar hyn o bryd nid oedd polisi ffurfiol ar gyfer delio ag achosion nac unrhyw weithdrefnau ffurfiol i'w dilyn i sicrhau cysondeb, tegwch a natur agored a darparu achos busnes cymeradwy ar gyfer pob cytundeb. Codwyd tri phrif fater yn y Cynllun Gweithredu yr oedd angen eu trafod a chytuno arnynt cyn i'r Cyngor negodi ymhellach unrhyw 'gytundebau setliad'. Roedd copi o'r Cynllun Gweithredu wedi ei gynnwys a chrynodeb o'r materion, a'r farn a luniwyd cyn cytuno ar setliad, gan y CD:ECA, a groesawodd yr argymhellion yn yr adroddiad. Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio fod gwaith i baratoi'r adroddiad wedi dechrau cyn cyhoeddi erthygl ar gytundebau setliad yn y wasg.

Cadarnhawyd nad oedd unrhyw reswm penodol am y cynnydd mewn setliadau yn ystod 2012/13, ar wahân i gymhlethdodau yn y berthynas rhwng y cyflogwr a'r gweithwyr. Eglurodd CD:ECA nad oedd unrhyw dueddiadau'n ymwneud ag Adrannau penodol, a bod nifer y setliadau'n ymwneud â staff mewn ysgolion yn

cyd-fynd â chanran y staff a gyflogid yn y Gwasanaeth Addysg. Cyfeiriodd hefyd at ddimensiwn ychwanegol rôl y Cyrff Llywodraethu Ysgolion o safbwynt rheoli ysgolion. Dywedwyd wrth Aelodau fod Swyddog Cefnogi wedi ei benodi i roi cymorth i Gyrff Llywodraethu Ysgolion, ynghyd â darparu hyfforddiant ychwanegol, a bod swyddogion Cyllid ac Adnoddau Dynol wedi eu penodi i glystyrau ysgolion i ddarparu cyngor a helpu gyda'r broses reoli. Gofynnodd y Cadeirydd am wybodaeth ynglŷn â'r gwaith a wneir ar hyn o bryd o safbwynt hyfforddiant ar faterion cyflogaeth.

Pwysleisiodd y CD:ECA bwysigrwydd rheolaeth dda o ran arfer Adnoddau Dynol, ac awgrymodd fod adolygiad yn cael ei gynnal o ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer Cyrff Llywodraethu. Cyfeiriodd y Cynghorydd M.L.Holland, er ei fod yn derbyn bod anawsterau, at y posibilrwydd o ddefnyddio arfarniadau perfformiad yn y Gwasanaeth Addysg.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at y risg i enw da'r Cyngor ac awgrymodd y dylid ystyried cyhoeddi gwelliannau, yn y parth cyhoeddus, yn yr adroddiad archwilio. Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod yr adroddiad archwilio'n cynnig mabwysiadu polisi a gweithdrefn ffurfiol, i'w defnyddio ar draws y Cyngor, a allai gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl ei ffurfio.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cytunodd Aelodau fod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad pellach, yn cynnwys copi o'r polisi a'r gweithdrefnau drafft, yn Ionawr 2014. Hefyd gofynnodd y Cadeirydd fod adroddiad ar faterion cyflogaeth, gweithredu'r strategaeth Adnoddau Dynol mewn clystyrau ysgolion a darparu hyfforddiant i Gyrff Llywodraethu Ysgolion yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn Ionawr, 2014.

- (ii) Dirprwy Gyllid (Llys Gwarchod), ac
- (iii) Ysgol Brynhyfryd, Ruthun:-

Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio fod y ddau adroddiad wedi bod yn gadarnhaol iawn a bod y Pwyllgor wedi derbyn a nodi cynnwys y ddau.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor wedi gofyn yn flaenorol am gyfle i drafod unrhyw adroddiadau archwilio gan roi sgôr sicrwydd oren neu goch, sicrwydd isel neu ddim sicrwydd, a gyflwynwyd ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adroddiadau'r Pwyllgor. Dosbarthwyd yr adroddiad ar Gaffael Gwasanaethau Adeiladu, a gyflwynwyd ar 29 Hydref, 2013, yn y cyfarfod.

- (iv) Caffael Gwasanaethau Adeiladu:-

Cyflwynodd Pennaeth Cyllid ac Asedau'r adroddiad ac eglurodd fod adolygiad o Gaffael Gwasanaethau Adeiladu wedi ei gynnal ar gais y Pennaeth Cyllid ac Asedau er mwyn asesu'r prosesau presennol ar gyfer gwariant ar waith adeiladu a nodi cyfleoedd i sicrhau effeithlonrwydd. Yn sgil newidiadau sylweddol, a oedd yn cynnwys ymwneud cynyddol gan gyffwrdd allanol fel Llywodraeth Cymru, roedd angen diweddarau'r Strategaeth Gaffael bresennol i integreiddio â datblygiad y Strategaeth Datblygu Economaidd. Amlinellodd yr amserlenni ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud a chadarnhaodd fod cwmpas yr adolygiad wedi cynnwys y strategaeth

gaffael, rolau a chyfrifoldebau, polisïau a gweithdrefnau, rhestrau cymeradwy a thendro a dewis contractwyr. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cysylltu â'r Cyfarwyddiaethau perthynol i sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor wrth gydlynu gwahanol gontractau.

Mewn ymateb i bryderon a leisiwyd gan y Cynghorydd P.C. Duffy, eglurodd y Rheolwr Eiddo nad oedd mecanwaith yn ei le i atal ysgolion rhan cael contractwyr o'u dewis i wneud gwaith ar eu safleoedd. Cadarnhaodd Pennaeth Cyllid ac Asedau fod ysgolion yn gyfrifol am reoli eu cyllidebau eu hunain ac amlinellodd yr anawsterau yn eu hwynebu o ran dirprwyo ac ysgolion. Roedd Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro a'r Cydlynnydd Cynllunio a Rheoli Adeiladu wedi mynychu cyfarfod rheolwyr cyllid ysgolion i amlinellu atebolrwydd a gweithdrefnau caffael o safbwynt ysgolion yn ymgymryd â gwasanaethau contractwyr. Paratowyd crynodeb o fanylion rolau a chylch gorchwyl rheolwyr cyllid a busnes ysgolion, mewn perthynas â chlystyrau ysgolion, ar gyfer Mr P. Whitham.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd yr Uwch Archwilydd y byddai adroddiad dilynol ar Gaffael Gwasanaethau Adeiladu yn cael ei baratoi yn Chwefror, 2014, a gallai adroddiad cynnydd gael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor ym Mawrth, 2014.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn:-

- (a) nodi cynnydd a pherfformiad Archwilio hyd yma yn 2013/14.
 - (b) derbyn ac yn nodi'r adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar a gyflwynwyd a'r gwaith dilynol a wnaed.
 - (c) gofyn am adroddiad cynnydd ar Gytundebau Setliad, yn cynnwys copi o'r polisi a'r gweithdrefnau drafft, i'w cyflwyno i'r Pwyllgor yn Ionawr, 2014, ynghyd â chynnwys gwybodaeth am faterion cyflogaeth, gweithredu'r strategaeth Adnoddau Dynol mewn clystyrau ysgolion a manylion am ddarparu hyfforddiant i Ysgolion a'u Cyrff Llywodraethu, a
 - (d) chytuno bod adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Mawrth, 2014 o safbwynt Caffael Gwasanaethau Adeiladu.
- (PM, IB, BS a LL i weithredu)**

9 ADBORTH CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad llafar gan y Cynghorydd M.L. Holland am y cyfarfod Cydraddoldeb Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2013.

Pwysleisiodd y Cynghorydd M.L. Holland y pwyntiau amlwg canlynol:-

- Roedd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb wedi parhau i wella.
- Roedd hysbysiadau wedi eu dosbarthu i Gyfarwyddiaethau'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau defnyddio templedi cywir.

- Byddai Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn sicrhau bod Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn cael eu cynnwys ar gyfer adroddiadau a gyflwynid i'r Cabinet ac i'r Cyngor.
- Byddai Hyfforddiant Cydraddoldeb yn flaenoriaeth i bob aelod o staff, a byddai angen iddynt ddarllen y llyfryn "Parch".
- Mynegwyd pryder mai dim ond 15 o Aelodau a oedd wedi mynychu sesiynau hyfforddi Cydraddoldeb.
- Awgrymodd y Cynghorydd Holland, mewn achosion lle nad oedd Asesiad Effaith Cydraddoldeb i gyd-fynd ag adroddiad, y dylid rhoi rhesymau pam.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd amlinelliad o rwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor o safbwynt Asesiadau Effaith Cydraddoldeb.

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor yn derbyn ac yn nodi'r adroddiad

10 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i'w hystyried.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Raglen Waith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau canlynol:-

18 Rhagfyr, 2013:-

- Adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar Indemniti ar gyfer Aelodau Etholedig.

29 Ionawr, 2013:-

- Adroddiad diweddar gan Bennaeth Cyllid ac Asedau ar y Cytundeb Setliad.
- Adroddiad diweddar gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y Protocol ar gyfer Aelodau sy'n Gynrychiolwyr ar Gyrrff Allanol.

26 Mawrth, 2014:-

- Adroddiad diweddar gan Bennaeth Archwilio Mewnol ar Gaffael Gwasanaethau Adeiladu.

PENDERFYNWYD - yn amodol ar yr uchod, fod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.25 p.m.



24 Cathedral Road / Heol y Gadeiriau
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Epost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dr Mohammed Mehmet
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstey
Rhuthun
LL15 1YN

Cyfeirnod 635A2013
Dyddiad 27 Tachwedd 2013
Tudalennau 1 o 2

Annwyl Mohammed

Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 12 Medi 2013, rhoddais fy marn ar b'un a oedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.

Mae hefyd yn ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ynghylch p'un a yw Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Yn fy marn i, ac yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant o dan y Mesur

- cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2012/13* (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2013;
- mae'r Adroddiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn nodi'n glir sut mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;

- mae'r Adroddiad yn gwerthuso llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella a mynegi ei farn yn glir;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys adran fer i ddinasyddion sydd am roi adborth neu wneud sylwadau ar yr Adolygiad;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y'u mesurir gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol; ac
- mae'r Adroddiad yn cynnwys adran fer ar y ffyrdd y mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithio.

Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Nid yw'r llythyr hwn yn awgrymu unrhyw gynigion ar gyfer gwella. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

Byddaf yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n ategu gwaith rheoli perfformiad a chyflwyno adroddiadau'r Cyngor yn ystod y misoedd nesaf ac yn cyflwyno adroddiad arno, yn ogystal â chrynhof'r holl waith a wnaed gennyf a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14 mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Cyngor, y byddaf yn ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir



HUW VAUGHAN THOMAS
Archwilydd Cyffredinol Cymru

COPI: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Huw Lloyd Jones – Rheolwr

Gwilym Bury – Arweinydd Archwilio Perfformiad

Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Dyddiad y Cyfarfod:	18 Rhagfyr 2013
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Golfa Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant / Cyfarwyddwr Corfforaethol Moderneiddio a Lles
Awdur yr Adroddiad:	Pen Reolwr: Cymorth Busnes
Teitl:	Gwerthuso ac Adolygu Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 2012-13

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r prif faterion sy'n deillio o werthusiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol Sir Ddinbych ar gyfer 2012-13. Mae copi o'r gwerthusiad llawn yn Atodiad 1.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o werthuso perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys meysydd cynnydd, meysydd gwella a risg.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Argymhellir bod Aelodau'n ystyried gwerthusiad AGGCC a'r adroddiad cynnydd cysylltiedig gan y gwasanaethau cymdeithasol ac yn ystyried a oes angen unrhyw archwilio pellach. Bydd y Rheolwr Ardal ar gyfer AGGCC yn mynychu'r cyfarfod i roi cyfle i Aelodau gael eglurhad ynglŷn ag unrhyw elfen benodol o'r adroddiad gwerthuso.

4. Manylion am yr Adroddiad.

- 4.1. Bob blwyddyn mae AGGCC yn gwneud gwerthusiad cynhwysfawr o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol bob awdurdod lleol. Mae'r gwerthusiad yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth, yn cynnwys: adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar berfformiad a chynlluniau gwella yn eu hawdurdod lleol; gwaith rheoleiddio AGGCC; a sylwadau gan archwilwyr ac arolygwyr eraill. Mae'r gwerthusiad yn cael ei safoni i sicrhau dull cyson, tryloyw a chymesur.
- 4.2. Yn fyr, mae'r gwerthusiad o Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych wedi tanlinellu bod y cyngor yn ymgymryd â rhaglen foderneiddio uchelgeisiol a fydd

yn dylanwadu ar wasanaethau a phrofiadau dinasyddion. Caiff ei gydnabod fod arweinyddiaeth gref ac effeithiol ar bob haen o fewn yr awdurdod a cheir tystiolaeth gref o gynnydd parhaus er gwaethaf yr heriau y mae gwasanaethau yn eu hwynebu.

4.3. Mae nifer o feysydd gwella penodol wedi eu nodi gan AGGCC yn eu hadroddiad. Bydd cynnydd y Cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd rhwng yr Uwch Dîm Rheoli a AGGCC y flwyddyn nesaf. Dyma'r meysydd y bydd AGGCC yn rhoi sylw dilynol iddynt y flwyddyn nesaf:

- Sefydlu canlyniadau mesuradwy clir i helpu i werthuso gwasanaethau presennol ac arfaethedig
- Asesu a rhoi cymorth i ofalwyr.
- Perfformiad mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal.
- Mesurau Amddifadu o Ryddid
- Lefelau salwch staff.
- Arolwg thematig cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal.
- Arolwg thematig cenedlaethol o gomisiynu gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn
- Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

4.4. Mae Atodiad II yn rhoi trosolwg o feysydd a nodwyd sy'n dangos cynnydd a meysydd y dylid eu gwella yn y gwerthusiad o'r perfformiad. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn ymateb i'r meysydd y dylid eu gwella.

4.5. Mae'r meysydd a nodwyd y dylid eu gwella yn unol â hunan asesiad y Cyfarwyddwr ac maent wedi eu hymgorffori yng Nghynlluniau Busnes Gwasanaeth 2013-14. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu monitro'n ffurfiol bob chwarter gan y gwasanaethau, a chyflwynir adroddiad ar nifer o elfennau ddwywaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a'r Cabinet gan eu bod yn rhan o'r Cynllun Corfforaethol. Hefyd mae gan bob gwasanaeth Her Perfformiad Gwasanaeth flynyddol sy'n edrych ar gynnydd yn erbyn Cynlluniau Busnes Gwasanaeth.

4.6. Mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn erbyn y meysydd gwella a danlinellwyd yn adroddiad gwerthuso perfformiad 2011-12. Fodd bynnag, caiff ei gydnabod nad yw'r cynnydd wedi bod mor sylweddol ag a ragwelid yn y meysydd canlynol:

- Lefelau absenoldeb salwch. Er gwaethaf atebolrwydd cryfach gan reolwyr a threfn adrodd a monitro gadarnach o fewn y ddau wasanaeth, mae lefelau salwch staff yn dal yn uchel o'u cymharu â gweddill yr awdurdod. Felly mae hwn yn dal i fod yn faes â blaenoriaeth uchel i'r ddau wasanaeth.
- Gwella cysondeb o ran darparu cymorth i deuluoedd yn dilyn dadgofrestru o'r gofrestr diogelu plant. Fodd bynnag, dylid nodi bod cynnydd wedi ei wneud yn y maes hwn gyda threfniadau trosiannol clir o fewn gwasanaethau (Gwasanaeth Cymorth Teulu Integredig; Tîm o Gwmpas y Teulu; Teuluoedd yn Gyntaf) sy'n sicrhau bod y gwasanaeth yn ymateb yn addas i deuluoedd wrth i'w hanghenion wella a/neu fynd yn waeth.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Mae'r arolwg yn rhoi persbectif allanol o effeithiolrwydd y Cyngor o safbwynt diogelu pobl fregus a hybu eu hannibyniaeth (un o'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol). Mae'r gwerthusiad hefyd yn rhoi persbectif ar raglenni ar gyfer moderneiddio ac addasu gwasanaethau gofal cymdeithasol.

6. Beth fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Mae ymateb y Gwasanaeth i sicrhau camau gwella wedi ei integreiddio â Chynlluniau Busnes Gwasanaeth 2013/2014. Bydd y gwaith o ddarparu'r cynlluniau hyn yn cael ei reoli o fewn adnoddau ariannol presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad? Ar ôl cwblhau'r templed Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.

- 7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith Cydraddoldeb gan and yw'r adroddiad hwn yn gofyn am benderfyniad a fydd yn arwain at unrhyw newid i staff neu'r gymuned ehangach.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

- 8.1. Trefnir cyfarfodydd ymgysylltu a gynhelir gyda'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ac AGGCC sy'n helpu i gyfrannu at y gwerthusiad yn ogystal ag asesu cynnydd o safbwynt sicrhau gwelliannau. Bellach mae'r AGGCC yn cael eu gwahodd hefyd i'r Her Perfformiad Gwasanaeth ar gyfer y ddau wasanaeth, ac roedd Rheolwr Ardal AGGCC yn bresennol yn yr Her Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ddiweddaraf ar 25 Gorffennaf 2013.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae ymatebion i gamau gwella wedi eu hintegreiddio â'r Cynlluniau Busnes Gwasanaeth a rhaid eu cynnwys o fewn adnoddau presennol.

10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r "risg o adroddiad(au) negyddol iawn gan reoleiddwyr allanol" yn risg sydd wedi ei nodi ar hyn o bryd ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Yn gyffredinol, mae hwn yn adroddiad cadarnhaol iawn, ond bydd angen i'r Cyngor ymateb yn gadarnhaol i'r materion a godwyd yn yr adroddiad er mwyn sicrhau bod adroddiad 2013-14 yn aros yn gadarnhaol.

11. Y Grym i wneud Penderfyniad

11.1. Adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 – dyletswydd Gwerth Gorau i sicrhau gwelliannau parhaus.

11.2. Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 – dyletswydd i sicrhau gwelliannau parhaus yn y gwasanaeth a ddarperir.

11.3. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 – dyletswydd i sicrhau gwelliannau parhaus yn y gwasanaeth a ddarperir.

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013

Enw'r Awdurdod **Cyngor Sir Ddinbych**
Lleol:

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych a meysydd i'w gwella yn y dyfodol

Crynodeb

Mae'r cyngor yn parhau i weithio ar raglen uchelgeisiol o foderneiddio sydd â'r nod o ailstrwythuro a llunio gwasanaethau a disgwyliadau dinasyddion. Mae tystiolaeth o gynnydd parhaus ar gael er gwaethaf amgylchedd heriol.

Mae arweinyddiaeth gref yn parhau i fodoli ar lefel adrannol a chorfforaethol, gyda pherthynas waith effeithiol â'r aelod arweiniol. Mae'r defnydd o'r dull gwaith sy'n cynnwys herio'r gwasanaeth yn darparu lefel ychwanegol o graffu mewnol.

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn darparu naratif rhesymegol sy'n gosod perfformiad y cyngor yng nghyd-destun y rhaglen foderneiddio amgylcheddau a'r ariannol a demograffaid heriol.

Mae'r rhaglen foderneiddio yn cael ei rhoi ar waith yng nghyd-destun cyflawni arbedion effeithlonrwydd ac mae'r gwasanaethau yn mantoli eu cyllideb. Mae'r ddau faes gwasanaeth yn defnyddio arbedion ar gyfer ysgogi mwy o ddatblygiadau yn y gwasanaethau. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn dangos bod gan y cyngor gynlluniau uchelgeisiol ond realistig ynghyd â chynlluniau ariannol tymor canolig effeithiol.

Gwasanaethau i oedolion

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod pwyslais y cyngor ar ymyriad cynnar, gwaith ataliol ac ail-alluogi wedi golygu bod llai o bobl yn cael eu cynorthwyo mewn gofal preswyl a bod mwy o bobl yn gallu byw bywydau annibynnol. Pan fo angen cymorth parhaus ar bobl, mae hyn yn cael ei ddarparu'n fwyfwy heb ofyn am gymorth gwasanaethau statudol ac o fewn cymunedau'r bobl eu hunain. Mae

llawer o bobl yn elwa ar becynnau cymorth tymor byr ar gyfer ailsefydlu eu hannibyniaeth ac nid oes angen unrhyw wasanaethau parhaus arnynt.

Mae'r cyngor yn cydnabod bod angen gwella'r broses o ddarparu cymorth i ofalwyr, ac mae strategaethau wedi eu sefydlu ar gyfer cyflawni hyn.

Fodd bynnag, ceir rhai problemau ynglŷn â sicrhau ymgysylltiad, penderfyniadau a chamau gweithredu amserol ar lefel strategol â'r bwrdd iechyd lleol. Er bod y cyngor yn cydnabod hyn, mae'n nodi bod ymrwymiad cryf o hyd i gyflawni ymgysylltiad mwy effeithiol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Gwasanaethau i Blant

Mae perfformiad yn unol ag amrywiaeth sylweddol o ddangosyddion cenedlaethol yn parhau i fod ymysg y gorau yng Nghymru. Mae'r cyngor yn darparu ymateb effeithiol i atgyfeiriadau newydd, ac mae'n perfformio'n dda o ran cyflawni ei gyfrifoldebau ynglŷn â phlant mewn angen ac amddiffyn plant. Mae'r cyngor wedi cydnabod yr angen i wella gwasanaethau i ofalwyr ifanc a'r bobl sy'n gadael gofal, ac mae wedi cymryd camau ar gyfer cyflawni hyn. Er bod y cyngor wedi cynnal a gwella perfformiad mewn nifer o ddangosyddion yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal, nodwyd bod perfformiad wedi gwaethygu ar draws nifer o ddangosyddion allweddol. Gallai'r cyngor ddadansoddi mwy ar y maes hwn er mwyn deall y rhesymau dros y newid yn y perfformiad ac i nodi pa gamau sydd eu hangen i gyflawni gwelliant.

Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- Y gallu parhaus i ddylanwadu ar gynllunio strategol sy'n canolbwyntio ar ardaloedd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Cyflawni olyniaeth ddidrafferth pan fydd y cyfarwyddwr presennol yn ymddeol y flwyddyn nesaf.

Ymateb i feysydd datblygu'r llynedd

Yn gyffredinol, bu ymateb da i'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad y llynedd. Mae'r cyngor wedi cyflawni gwelliant o ran:

- Ymgynghori â phlant a'u teuluoedd ynglŷn â datblygu ac adolygu gwasanaethau.
- Datblygu strategaethau comisiynu, er nad ydynt wedi eu rhoi ar waith yn llawn hyd yma.
- Gwelliant o ran nifer yr asesiadau craidd a gyflawnwyd o fewn yr amserlen ofynnol.
- Mwy o gydgyssylltiad yn y gwasanaethau cymorth i deuluoedd.
- Adolygiadau prydlon o gynlluniau gofal i oedolion.
- Canolbwyntio'n well ar bobl sy'n gadael gofal ac ar eu hanghenion.

- Niferoedd y gwerthusiadau perfformiad blynyddol a gynhaliwyd ar gyfer y staff wedi gwella.

Mewn rhai meysydd, nid yw'r cyngor wedi dangos tystiolaeth hyd yma eu bod wedi llwyr gyflawni'r hyn a ddisgwyliwyd. Yn benodol:

- Absenoldeb salwch y staff sy'n parhau i fod yn uchel.
- Gwell cysondeb o ran y cymorth a ddarperir i deuluoedd yn dilyn datgofrestriad oddi ar y gofrestr amddiffyn plant.

Pan fo angen, bydd AGGCC yn parhau i ganolbwyntio ar y materion hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Arfer da a nodwyd:

Mae AGGCC wedi nodi'r meysydd canlynol o arfer da :

- Craffu mewnol cadarn ar berfformiad, gan gynnwys "heriau i wasanaethau".
- Cydweithredu ag adrannau eraill y cyngor.
- Hyfforddi a chynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i ddarparu hyfforddiant ar urddas mewn gofal.
- Rhoi gwirfoddolwyr ar restrau byr ar gyfer gwobrau cenedlaethol.
- Datblygu datganiadau o sefyllfa'r farchnad er mwyn cynnwys sefydliadau gofal cymdeithasol annibynnol a'r trydydd sector yn y broses o lunio gwasanaethau.

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau safle yn ystod y 12 mis diwethaf.

Cwblhaodd AGGCC raglen o arolygiadau o wasanaethau a reoleiddir ac sy'n cael eu rhedeg yn Sir Ddinbych, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd ag uwch swyddogion y cyngor.

Bu AGGCC mewn amrywiaeth o gyfarfodydd diogelu yn y gwasanaethau i oedolion a'r gwasanaethau i blant, yn ogystal â chyfarfodydd uwchgyfeirio pryderon ynglŷn â chartrefi gofal i oedolion yn Sir Ddinbych.

Cymerodd Sir Ddinbych ran mewn adolygiad cenedlaethol o blant mewn angen.

Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf

Nodwyd nifer o feysydd penodol i'w gwella ym mhrif ran yr adroddiad hwn. Bydd yr hyn a gyflawnir o ran y rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn i ddod.

- Sefydlu canlyniadau eglur y gellir eu mesur er mwyn helpu i werthuso gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli a gwasanaethau arfaethedig.
- Asesu a chynorthwyo gofalwyr.
- Perfformiad o ran plant sy'n derbyn gofal.
- Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid.
- Lefelau absenoldebau salwch y staff.
- Arolygiad thematig cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal.
- Adolygiad thematig cenedlaethol o gomisiynu gofal cymdeithasol i bobl hŷn.
- Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

PERFFORMIAD

Llunio gwasanaethau:

Oedolion

Mae gan y cyngor ddull cadarn o gynllunio busnes sydd wedi ei seilio ar y proffiliau presennol o anghenion a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol, trwy ddefnyddio data a rhagolygon cenedlaethol a lleol ynglŷn â phoblogaeth ac angen. Mae hyn wedi cynorthwyo'r cyngor i baratoi cynllun busnes clir sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ac ehangu gwasanaethau, ar sail ar y wybodaeth sydd ar gael. Nod y cynllun busnes yw sicrhau cydbwysedd rhwng defnyddio ymyriad cynnar a dulliau ataliol ac ail-alluogi er mwyn cynnal annibyniaeth a gwasanaethau ar gyfer pobl ag anghenion gofal cymhleth tymor hir. Mae'r cynllun yn nodi blaenoriaethau pendant ar gyfer gwella.

Mae'r gwasanaethau i oedolion wrthi'n datblygu "datganiadau o sefyllfa'r farchnad" ar gyfer amrywiol categorïau o anghenion gwasanaeth, a bwriad y rhain yw ategu'r gwaith strategol yn y cyngor a chyda darparwyr annibynnol a'r trydydd sector. Bydd y dogfennau hyn, ynghyd â'r strategaethau comisiynu perthnasol, ar gael trwy wefan y cyngor.

Mae tystiolaeth gref ar gael o waith partneriaeth, sydd wedi bod yn effeithiol o ran datblygu a darparu gwasanaethau wedi eu hailstrwythuro a'u targedu. Mae hyn yn wir ynglŷn ag adrannau eraill o'r cyngor (e.e. gwasanaethau hamdden a chymunedol), awdurdodau lleol eraill, asiantaethau eraill o'r sector cyhoeddus, a gwasanaethau annibynnol a'r trydydd sector. Er enghraifft, Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru, sy'n cynnwys chwe awdurdod gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr â Sir Ddinbych fel yr awdurdod arweiniol. Monitro contractau cyfredol a datblygu dull cytbwys o sicrhau ansawdd oedd y pwyslais penodol cychwynnol. Disgwylir y bydd ymdriniaeth y ganolfan o gymorth i wella mwy ar ansawdd bywyd ac ansawdd gofal y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Dywed y cyngor fod y broses o ymsefydlu'r strwythurau newydd o ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi parhau i achosi rhai problemau, gyda rhai

achosion o oedi o ran symud ymlaen yn effeithiol â datblygiadau gwasanaeth ar y cyd. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn nodi hefyd bod ymrwymiad yn parhau i fodoli i weithio ar y cyd ac yn gydweithredol er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl yn Sir Ddinbych. Ystyrir bod datblygu Un Pwynt Mynediad ar gyfer ymholiadau iechyd a gofal cymdeithasol yn enghraifft o hyn. Er y bu oedi o ran ei weithredu, mae'r ymroddiad i gyflawni'r prosiect wedi bod yn amlwg, ac mae'r cyngor bellach yn dweud y bydd yr Un Pwynt Mynediad yn cael ei roi ar waith yn ystod yr hydref yn 2013.

Ymgynghorir yn helaeth â defnyddwyr gwasanaeth ac eiriolwyr ynglŷn â datblygu gwasanaethau ac ansawdd gwasanaethau. Trwy'r broses hon, mae'r cyngor yn cydnabod bod rhai heriau yn parhau i fodoli o ran helpu pobl i ddeall y newid yn y pwyslais a'r dull gweithio yn y gwasanaethau i oedolion.

Plant

Mae'r cyngor yn parhau i ddatblygu gwasanaeth integredig a di-dor o fewn model damcaniaethol a strwythurol pendant. Mae hyn yn rhoi blaenoriaeth i strategaethau ymyriad cynnar. Mae'r strwythurau a'r systemau ar gyfer cefnogi hyn bellach wedi eu sefydlu ers mwy na 12 mis, ac mae'r cyngor wrthi'n gwerthuso eu heffeithiolrwydd. Mae'r cyngor yn nodi bod nifer o fuddiannau wedi deillio o hyn, sef gwell perthynas ag asiantaethau partner, gwasanaeth ymyriad cynnar sy'n datblygu ac sy'n darparu continwwm gwasanaeth (ochr yn ochr â gwasanaethau statudol) i deuluoedd wrth i'w hanghenion ddwysau ac ysgafnhau, lefel uchel o weithgarwch datblygu o ran ymarfer gwaith, systemau a gwasanaethau, perfformiad cyson, ac mewn nifer o achosion, gwell perfformiad.

Cydnabyddir hefyd nad yw rhai agweddau ar yr ailstrwythuro yn darparu canlyniadau disgwylidig hyd yma. Sefydlwyd cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Mae'r cyngor wedi darparu tystiolaeth i ddangos ei fod wedi cynnal ymgynghori â theuluoedd ag amrywiaeth eang o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys y profiad o'r gwasanaethau ymyriad cynnar ac ataliol, profiad pobl sy'n gadael gofal, a phrofiadau plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud i fapio proffil anghenion plant sydd ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd ac i ddatblygu strategaethau priodol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion o ran datblygu gwasanaethau. Mae tystiolaeth ar gael i ddangos bod sylwadau defnyddwyr gwasanaeth wedi eu cynnwys wrth ddatblygu gwasanaethau ymhellach.

Meysydd o gynnydd

- Datblygu datganiadau o sefyllfa'r farchnad i gyfrannu at y broses o ddarparu gwasanaethau ac i'w hategu.
- Symud ymlaen o ran llwyddo i roi'r Un Pwynt Mynediad ar waith.

- Parhau i ddatblygu'r dull ymyriad cynnar, gwaith ataliol ac ail-alluogi o ran gofal cymdeithasol i oedolion.
- Parhau i ddatblygu model ymyriad cynnar i blant, gyda chysylltiadau eglur ag amrywiaeth eang o ofynion polisi.
- Y defnydd o ymgynghori ar gyfer gwerthuso profiadau plant a'u teuluoedd o wasanaethau, er mwyn cynorthwyo i'w datblygu ymhellach.

Meysydd i'w gwella

- Ymwreiddio'r strwythur newydd yn llawn mewn ymarfer gwaith.
- Sefydlu canlyniadau eglur y gellir eu mesur er mwyn helpu i werthuso datblygiadau cyfredol ac arfaethedig mewn gwasanaethau. Dylai'r amcanion ganolbwyntio ar gynnydd i blant a theuluoedd, a chynnydd o ran cyflawni amcanion tymor hwy gwasanaethau (e.e. er mwyn lleihau nifer y teuluoedd y mae angen ymyriad dwys a thymor hwy arnynt).
- Datblygu'r farchnad gofal cartref er mwyn lleihau pwysau ar y gwasanaeth ail-alluogi.

Cael gafael ar gymorth:

Oedolion

Mae'r cyngor wedi ceisio gwella mwy ar y trefniadau da presennol sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i bobl Sir Ddinbych ynglŷn â gwasanaethau a sut y gallant eu defnyddio. Fel yr asiantaeth arweiniol ar gyfer datblygu'r Un Pwynt Mynediad, mae Sir Ddinbych wedi ymgysylltu'n effeithiol ag amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Mae perfformiad y cyngor o ran ymateb i atgyfeiriadau yn parhau i fod yn gryfder. Mae tystiolaeth ar gael o waith partneriaeth effeithiol â chydweithwyr ym maes iechyd ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol, gyda'r gwasanaeth ail-alluogi yn cyfrannu'n gryf at gyfraddau isel iawn o oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty ac at atal pobl rhag gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty nac i ofal preswyl.

Cynorthwyodd y gwasanaeth derbyn ac ail-alluogi 1786 o bobl i adennill a chynnal eu hannibyniaeth. Yn dilyn y cyfranogiad gan y gwasanaeth, nid oedd angen pecyn gofal ffurfiol mwyach ar 72% o'r bobl a gynorthwywyd. Mae'r cyngor yn bwriadu datblygu mwy ar y gwasanaeth ail-alluogi, ac mae'n buddsoddi cyllid ychwanegol sylweddol yn 2013/14 er mwyn parhau â'r ymateb hyblyg hwn i anghenion tymor byr.

Roedd llai o bobl naill ai'n cael eu cynorthwyo yn y gymuned neu drwy ofal preswyl yn ystod 2011/12 nag yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Dywedodd y cyngor mai'r rheswm am hyn oedd y gwaith i ailstrwythuro'r gwasanaethau, y pwyslais ar y

ddarparu gwasanaethau ataliol ac ail-alluogi, a'r newidiadau i'r ffordd y mae'r cyngor yn ymateb i geisiadau am addasiadau bychain.

Mae'r cyngor wedi gwella'n sylweddol o ran adolygu cynlluniau gofal pobl yn brydlon oherwydd buddsoddiad cynyddol a phwyslais cyson ymysg ymarferwyr. Mae'r perfformiad yn y dangosydd allweddol hwn bellach ymysg y gorau yng Nghymru, a bydd hyn yn cynorthwyo'r cyngor i sicrhau bod gan bobl y gwasanaeth iawn ar gyfer bodloni eu hanghenion.

Mae'r cyngor yn cydnabod bod angen gwella'r asesiad o'u hanghenion eu hunain, yn ogystal â'r cymorth a gynigir i bobl sy'n ofalwyr. Mae gan y cyngor drefniadau comisiynu â chwe asiantaeth y trydydd sector i ddarparu cymorth i ofalwyr, ac mae wedi contractio Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru i ddarparu gwasanaeth yn asesu anghenion gofalwyr. Yn ogystal, mae'r cyngor wedi gwneud llawer o waith gyda Grŵp Strategol Gofalwyr Gogledd Cymru i ddatblygu Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori Gofalwyr Gogledd Cymru. Mae'r cyngor hefyd yn bwriadu buddsoddi rhagor o adnoddau i gefnogi cynllun tair blynedd ar gyfer datblygu cymorth i ofalwyr o 2013 ymlaen.

Plant

Mae'r cyngor wedi darparu tystiolaeth o berfformiad cyson a gwell yn llawer o'r dangosyddion allweddol ynglŷn â mynediad i wasanaethau a rheoli achos effeithiol. Mae'r gyfradd ail atgyfeirio yn parhau ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol; mae cyfradd yr asesiadau cychwynnol a gwblhawyd o fewn saith diwrnod gwaith wedi gwella, mae cyfradd yr asesiadau craidd a gwblhawyd o fewn 35 diwrnod gwaith wedi gwella'n sylweddol, ac mae cyfradd y plant sy'n cael eu gweld gan weithiwr cymdeithasol ac sy'n cael eu gweld ar eu pennau eu hunain gan weithiwr cymdeithasol yn rhan o asesiad wedi gwella.

Mae proses archwilio mewnol y cyngor wedi sefydlu bod y safonau uchel hyn wedi eu cyflawni heb i ansawdd gwaith waethygu o gwbl. Dywedir bod cyfradd y teuluoedd a gynorthwyir trwy'r strategaethau ymyriad cynnar ac a atgyfeirir i fyny i'r gwasanaethau statudol yn isel, ac mae hyn yn cefnogi effeithiolrwydd yr asesiadau a'r ymyriadau.

Mae'r cyngor yn hysbysu y derbyniwyd 7345 o gysylltiadau, a bod 799 o'r rhain wedi symud ymlaen i atgyfeiriad. Dylai'r cysylltiadau na symudodd ymlaen i atgyfeiriad fod wedi eu cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. Mae'r cyngor wedi cydnabod bod angen gwerthuso pa un a yw'r gwasanaeth cyfeirio yn effeithiol ai peidio.

Mae gwasanaeth integredig i blant ag anableddau wedi ei roi ar waith, ond y mae anawsterau ynglŷn ag adleoli wedi effeithio'n niweidiol ar y graddau y llwyddodd i integreiddio'r broses asesu. Bu oedi sylweddol o ran mynediad at safleoedd y cytunwyd arnynt, ond dywedir bellach fod hyn wedi ei ddatrys. Mae ymgynghoriad

y cyngor â rhieni a phlant ag anghenion ychwanegol wedi nodi meysydd lle y dylid datblygu gwasanaethau, ac mae'r rhain wedi eu cynnwys yng nghynllun busnes y gwasanaethau.

Mae achosion o oedi o ran defnyddio'r gwasanaeth therapi galwedigaethol wedi derbyn sylw, gyda thystiolaeth bod yr amserlenni wedi gwella, o atgyfeirio i asesu i dderbyn gwasanaeth. Mae mwy o waith yn cael ei wneud i alluogi pobl i dderbyn grantiau cyfleusterau i'r anabl ar gyfer addasiadau bychain yn gyflym.

Meysydd o gynnydd

- Gwell amserlenni ar gyfer cwblhau asesiadau, ac ansawdd cyson yr asesiadau yn y gwasanaethau i blant.
- Cynnal adolygiadau'n fwy prydlon ar gyfer oedolion sy'n derbyn gwasanaethau.

Meysydd i'w gwella

- Cwblhau model gwasanaeth newydd ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd.
- Asesiadau a chymorth i ofalwyr.

Y gwasanaethau a ddarparwyd:

Oedolion

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i ddull strategol sy'n canolbwyntio adnoddau ar ymyriad cynnar, gwaith ataliol ac ail-alluogi, ac mae'n cydnabod ar yr un pryd y bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer rhai pobl ag anghenion cymhleth ac anghenion tymor hir. Mae'r pwyslais o ran y categori olaf o bobl yn parhau i fod ar sefydlu cymorth ymatebol sydd wedi ei addasu i angen unigol ac yn eu cymuned eu hunain, cyn belled â phosibl. Mae'r adran gofal cymdeithasol i oedolion wedi ymgysylltu'n effeithiol ag adrannau eraill o'r cyngor i ddatblygu a chynnal yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i bobl yn y gymuned.

Gan ddefnyddio'r ethos hwn, mae'r cyngor wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau, ac mae wedi nodi'r glir lle y mae angen adnoddau ychwanegol, gan gynnwys y rheidrwydd i gyflawni'r rhain yn y dyfodol yng nghynllun busnes y gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys parhau i ddarparu gwasanaeth teleofal gwerthfawr iawn a datblygu tri chynllun gofal ychwanegol arall yn y dyfodol. Mae'r cyngor hefyd yn bwriadu trawsnewid y gwasanaethau gofal dydd yn unol ag amcanion y gwasanaeth ail-alluogi, ac mae ganddo gynllun pontio ar gyfer y gwaith hwn.

Mae'r cyngor wedi cydnabod bod angen gwella niferoedd y bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol, ac mae'n bwriadu ehangu'r cynllun er mwyn darparu cyllid ar gyfer offer a mân addasiadau. O ganlyniad, bydd pobl yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â phrynu cymhorthion ac addasiadau. Rhoddir pwyslais cynyddol ar gynnig dewis a rheolaeth bersonol trwy gymryd camau

pendant i hybu taliadau uniongyrchol a chymorth sydd wedi ei gyfeirio gan ddinasyddion. Mae hyn yn ffurfio rhan allweddol o strategaeth drawsnewid y cyngor.

Plant

Yn gyffredinol, mae gan y cyngor amrywiaeth resymol o wasanaethau ar gyfer bodloni anghenion plant a theuluoedd. Mae proffil y gwasanaethau sydd ar gael wedi newid, ar sail gwaith y cyngor i nodi'r plant a'r teuluoedd hynny sy'n fwyaf tebygol o fod angen ymyriad. Cyfrannwyd at ddatblygiadau gwasanaethau o ran gofalwyr ifanc a phobl sy'n gadael gofal trwy ymgynghori â phlant a'u teuluoedd.

Mae'r gwasanaethau ataliol ac ymyriad cynnar yn parhau i fod yn hollbwysig i ymagwedd y cyngor at wasanaethau i blant, ac maent yn parhau i gael eu gwerthuso a'u datblygu ymhellach. Er enghraifft, gwnaeth y cyngor y penderfyniad i ddigomisiynu'r cartref plant, ac mae wedi buddsoddi peth o'r arian a arbedwyd mewn ehangu'r gwasanaeth cymorth i deuluoedd i gynnwys saith diwrnod yr wythnos. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio hefyd i ddatblygu gwasanaeth cymorth gofal maethu y bwriedir ei ddefnyddio fel rhan o'r model ymyriad cynnar. Mae'r pwyslais cyson ar ymyriad cynnar wedi cefnogi gwelliannau parhaus mewn dangosyddion perfformiad allweddol. Er enghraifft, mae mwy o'r cynlluniau gofal i blant mewn angen yn cael eu hadolygu o fewn yr amserlen ofynnol.

Mae'r cyngor wedi cynnal ymarfer proffilio eang o ran plant ag anghenion ychwanegol. Bwriedir llunio'r ddarpariaeth trwy ddull wedi ei seilio ar wybodaeth tebyg i'r un a ddefnyddiwyd i sefydlu'r model ymyriad cynnar, a thrwy ymgynghori â phlant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd. Mae'r strategaeth gomisiynu ar gyfer y gwasanaethau i blant yn nodi blaenoriaethau strategol eglur. Mae'r camau ar gyfer cefnogi'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys datblygu ymagwedd amlasiantaethol at ymyriad cynnar a rheoli risgiau, gweithio gyda darpariaeth yn y gymuned i sicrhau tegwch o ran mynediad i gyfleusterau hamdden, gweithio i adolygu ac ad-drefnu'r gwasanaeth therapi galwedigaethol a sefydlu prosesau darbodus ar gyfer cael gafael ar grantiau cyfleusterau i'r anabl, a gweithio gyda gwasanaethau i oedolion a chymorth busnes ar gyfer datblygu trefniadau pontio.

Nid yw'r ystod o wasanaethau i blant y mae angen i'r cyngor ofalu amdanynt wedi ei diffinio mor eglur â'r gwasanaethau ataliol ac ymyriad cynnar a'r gwaith arfaethedig ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd. Er y bu lleihad bychan yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, dywedir bod y "trosiant" yn uchel, gyda 79 o blant yn dechrau derbyn gofal yn 2012/13.

Ceir patrwm o berfformiad sy'n gwaethygu, mewn rhai achosion yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, o ran dangosyddion allweddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Er enghraifft, mae canran y plant sydd â chynllun parhad ar gael iddynt o fewn yr amserlen ofynnol wedi gostwng o 100% yn 2010/11 i 75.56 yn 2012/13, ac mae canran y plant sy'n derbyn gofal ac sydd â thri neu fwy o leoliadau wedi dyblu yn

ystod y tair blynedd ddiwethaf. Nid yw'r cyngor wedi darparu tystiolaeth glir ei fod wedi cwestiynu hyn a'i fod yn deall y rhesymau dros y dirywiad mewn perfformiad o ran plant sy'n derbyn gofal.

Nod y dull ymyriad cynnar, ymhen amser, yw lleihau niferoedd y plant a theuluoedd y mae angen ymyriad ddwys arnynt a niferoedd y plant y mae angen iddynt dderbyn gofal gan y cyngor. Mae'r rhain yn amcanion tymor hir lle y gallai'r effaith beidio â bod yn amlwg am sawl blwyddyn. Mae'r strategaeth gomisiynu yn nodi mai'r brif adnodd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fydd gofal maeth, ac y bydd y blaenoriaethau strategol yn canolbwyntio ar sicrhau eu bod yn symud lleoliadau llai o weithiau bod gofalwyr maeth yn cael eu cynorthwyo a'u hyfforddi ar gyfer bodloni anghenion plant, er mwyn darparu cartrefi sefydlog a diogel. Ymateb cyfyngedig i anghenion plant sy'n derbyn gofal yw hwn. Prin yw'r wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â sut y mae'r cyngor yn bwriadu gofalu am blant â'r anghenion mwyaf cymhleth a heriol lle y gallai gofal maeth beidio â bod yn briodol neu i gyflawni eu cyfrifoldebau ychwanegol ar gyfer plant sydd yn y ddalfa.

Meysydd o gynnydd

- Mae canran y plant mewn angen y mae eu cynlluniau yn cael eu hadolygu o fewn yr amserlen wedi gwella'n sylweddol.

Meysydd i'w gwella

- Perfformiad o ran plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig o ran cynllunio ar gyfer parhad a sefydlogrwydd lleoliadau.
- Gwerthuso ansawdd ac effaith gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu i weld a ydynt yn bodloni anghenion a chyflawni amcanion.

Yr effaith ar fywydau pobl:

Oedolion

Mae tystiolaeth ar gael i ddangos bod dull strategol y cyngor yn sicrhau rhai canlyniadau gwell – dangosir hyn efallai yn y dangosyddion fod llai o bobl angen gofal preswyl a llai o bobl angen cymorth tymor hir ar gyfer byw yn annibynnol.

Mae gwerthusiad y cyngor ei hun yn dangos bod mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaethau ail-alluogi, gyda'r cyngor yn dweud nad oedd ar 72% ohonynt angen unrhyw gymorth gofal cartref pellach ar ôl cwblhau'r rhaglen. Mae'r adborth gan y defnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn gadarnhaol, ac mae'n adlewyrchu'n arbennig fod y bobl yn teimlo bod y gwasanaeth yn eu trin ag urddas a pharch. Yr arwyddion yw bod y dull hwn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl.

Mae gallu'r gwasanaeth ail-alluogi i ymateb yn gyflym mewn modd wedi'i deilwra i'r unigolyn wedi bod yn bwysig o ran cynnal cyfraddau isel o oedi i bobl sy'n cael eu

rhyddhau o'r ysbyty. Mae'r cyngor o'r farn fod y pwysau ar y gwasanaeth ail-alluogi yn debygol o dyfu ac maent eisoes yn canolbwyntio ar fuddsoddi mwy yn y gwasanaeth.

Mae'r cyngor wedi cynnal perfformiad da o ran diogelu oedolion. Maent yn dweud bod y risg wedi ei rheoli mewn mwy na 96% o'r achosion, ac y sefydlwyd strategaethau eraill ar gyfer diogelu a hybu lles y defnyddiwr gwasanaeth yn yr achosion eraill. Yn dilyn adolygiad mewnol, mae'r ymdriniaeth o'r broses ddiogelu yn cael ei newid er mwyn sefydlu'r rheolwyr tîm fel rheolwyr arweiniol penodedig a fydd yn rheoli llwyth bychan o achosion amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Rhesymeg y cyngor ar gyfer y newid hwn yw y bydd yn cynorthwyo i wneud y broses ddiogelu yn fwy cadarn ac y bydd yn rhoi sylw i'r pwysau a ddisgwylir yn y maes hwn.

Mae'r cyngor hefyd wedi cymryd camau priodol o ran argymhellion adolygiad o achos difrifol yr adroddwyd amdano ym mis Hydref 2012.

Mae'r cyngor yn gwneud ymdrech i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran y trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, ac er y cynhaliwyd hyfforddiant ychwanegol, a oedd â phresenoldeb da, ar gyfer staff y sector annibynnol, mae'r gweithgarwch cyffredinol yn parhau i fod yn isel. Yn 2012/13, derbyniodd Sir Ddinbych 12 o geisiadau ar gyfer awdurdodiad, a chaniatawyd pum cais safonol. Mae'r rhif olaf hwn yn parhau i fod yn is nag y gellid ei ddisgwyl – er gwaetha'r ffaith ei fod yn un o'r niferoedd uchaf yng Ngogledd Cymru.

Rhoddir rhagor i sylwi i lefel isel y gweithgarwch yn gyffredinol ar draws Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn nesaf.

Plant

Mae'r cyngor yn dangos ymrwymiad cryf i ddiogelu plant, gan gynnwys bod ganddo ymagwedd effeithiol at amddiffyn plant. Mae gwaith ar y gweill i sefydlu strwythurau a fydd yn cefnogi'r newidiadau y bydd eu hangen dan Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2013, gyda thystiolaeth dda o waith partneriaeth effeithiol ag awdurdodau eraill yng ngogledd Cymru.

Mae tystiolaeth dda ar gael o broses archwilio fewnol ar gyfer amddiffyn plant ac o ddatblygiad cyfryngau lle y gellir rhannu "gwersi a ddysgwyd" ag ymarferwyr.

Mae nifer gynyddol o blant ar y gofrestr amddiffyn plant, ac mae hyn wedi bod yn batrwm cyson yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Bu gwelliant cyson ym mhrydlondeb cynadleddau cychwynnol a chyfarfodydd grŵp craidd. Mae'r perfformiad o ran adolygiadau amddiffyn plant wedi gostwng rywfaint.

Mae angen rhoi sylw cyson i wella ansawdd gwasanaethau a'r gallu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Nid yw'r ymagwedd bresennol yn sicrhau bod anghenion gofal iechyd ac addysg plant sy'n derbyn

gofal yn cael eu bodloni mewn modd sy'n cefnogi canlyniadau cadarnhaol. Mae'r rhain yn feysydd allweddol o angen i blant sy'n derbyn gofal a allai gael effaith ddofn a pharhaol ar eu datblygiad parhaus, ac ar gyflawni symud ymlaen yn llwyddiannus i fod yn oedolyn.

Ceir patrwm tair blynedd o ddirywiad mewn nifer o'r dangosyddion perfformiad ynglŷn â gofal iechyd. Er enghraifft, yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae canran y plant sydd â chynllun gofal iechyd wedi gostwng o 83% i 33%, ac mae canran niferoedd y plant sy'n cael archwiliad deintyddol wedi gostwng o 83% i 59%. Mae'r perfformiad yn y meysydd hyn ymysg yr isaf yng Nghymru. Nid yw'r cyngor wedi darparu eglurhad clir am hyn.

Ceir patrwm tebyg o berfformiad sy'n dirywio o ran addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Er enghraifft, mae canran y plant sydd â chynllun addysg personol wedi'i gyflawni o fewn yr amserlen ofynnol wedi gostwng dros dair blynedd o 88.5% i 57.8%, mae gwaharddiadau tymor penodedig wedi cynyddu yn ystod y 12 mis diwethaf, ac er bod y lefelau cyflawni cyffredinol wedi gwella, maent yn parhau i fod yn is yng Nghyfnod Allweddol 3 nag awdurdodau tebyg ac yn is na chyfartaledd Cymru gyfan.

Mae angen i'r cyngor ddatblygu mwy ar y trefniadau partneriaeth sydd wedi eu sefydlu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac adran addysg Cyngor Sir Ddinbych er mwyn sicrhau gwelliannau cyson yn y meysydd allweddol hyn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae canran yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal a gynhaliwyd o fewn yr amserlenni statudol wedi gostwng rywfaint yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae angen i'r cyngor sicrhau bod y trefniadau cadarn blaenorol a oedd yn sicrhau 100% o gydymffurfiaid â'r targed perfformiad hwn yn parhau i fod ar gael a'u bod yn gweithio'n effeithiol ar gyfer gwella'r maes allweddol hwn.

Bu pwyslais eglur ar werthuso'r gwasanaeth i bobl ifanc sy'n paratoi i adael gofal neu sydd wedi gadael gofal. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghoriad effeithiol â'r bobl ifanc a oedd yn gadael gofal sydd wedi arwain at fwy o ddatblygiadau i'r maes gwasanaeth hwn.

Meysydd o gynnydd

- Effeithiolrwydd cynyddol y gwasanaeth ail-alluogi.
- Proses cynllunio busnes eglur ar gyfer y gwasanaethau i oedolion.
- Defnydd effeithiol o brosesau archwilio mewnol wrth amddiffyn plant.
- Ymgynghori â phlant a'u teuluoedd.

Meysydd i'w gwella

- Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid.

- Aseidiadau iechyd a gofal iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Aseidiad a chymorth o ran addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Sicrhau adolygiadau statudol prydlon ac effeithiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

GALLU

Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol:

Mae'r cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu'r newidiadau strwythurol a diwylliannol angenrheidiol ar gyfer cyflawni ei raglen foderneiddio uchelgeisiol. Y prif ethos yw cynnal neu ailsefydlu annibyniaeth a rheolaeth yn eu bywydau gyda'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Ceir pwyslais eglur ar ddarparu a gwerthuso, gyda chyfranogiad cynyddol gan ddinasyddion.

Ceir mwy o ymrwymiad i weithio ar y cyd yn y cyngor, gydag awdurdodau ac asiantaethau eraill yng ngogledd Cymru a chyda sefydliadau annibynnol a thrydydd sector sy'n darparu gwasanaethau. Dangosir hyn yn y dull amlasiantaethol o asesu a rheoli risgiau ar y cyd yn y gwasanaethau i blant; yr ymrwymiad i'r Ganolfan Gomisiynu Ranbarthol, a gwaith gyda darparwyr tai cymdeithasol i ddatblygu gwasanaethau arloesol sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac i ddarparu mwy o gymorth i ofalwyr. Ystyrir bod y berthynas ag asiantaethau partner yn dda ar lefel unigol a lefel sefydliadol, er gwaethaf rhai heriau o ran ymgysylltu'n effeithiol ar lefel strategol â'r strwythurau newydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y cyngor gynllun ariannol tymor canolig effeithiol, ac mae datblygiadau i wasanaethau wedi eu cysylltu'n eglur ag amcanion corfforaethol. Mae'r gwasanaethau i oedolion a'r gwasanaethau i blant wedi gweithio i gyflawni eu hamcanion o fewn y gyllideb, ac i gyflawni'r arbedion ariannol angenrheidiol. Mae hyn wedi ei werthuso mewn modd realistig gan y gwasanaethau, a, phan fo cyflawni mwy o arbedion yn creu mwy o risgiau, adroddir am hynny yn hyderus. Ceir tystiolaeth o gymorth corfforaethol ar gyfer yr ymagwedd a gymerir trwy brosesau herio a chraffu y gwasanaeth.

Mae cryn bwyslais wedi ei roi ar ddatblygu'r gweithlu, gyda strategaeth datblygu eglur gyda'r bwriad o gefnogi'r newidiadau strwythurol a diwylliannol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni'r cynllun moderneiddio. Nod y strategaeth yw ymsefydlu dysgu ar bob lefel o'r sefydliad trwy ddefnyddio amrywiaeth o fodolau dysgu.

Mae gwerthuso gan y cyngor ac arolygu allanol yn dangos bod ysbryd y staff wedi codi, gyda gwell dealltwriaeth o'r disgwyliadau a'r cymorth sydd ar gael.

Mae lefelau absenoldebau salwch y staff yn parhau i fod yn her er gwaethaf strategaeth gyson, wedi ei thargedu, i gyflawni gostyngiad yn y lefelau o absenoldeb oherwydd salwch. Mae hwn yn parhau i fod yn faes lle y mae'r cyngor

yn cydnabod bod angen gwella. Ceir pwyslais eglur ar roi sylw i'r broblem hon, ac mae mwy o ddatblygiadau yn y dulliau adrannol a chorfforaethol o reoli absenoldebau.

Mae ymagwedd gadarn yn parhau i fodoli at reoli perfformiad, sy'n cael ei ymsefydlu fwyfwy yn y gwaith a'r ymarfer beunyddiol. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei datblygu ymhellach er mwyn canolbwyntio ar y canlyniadau a gyflawnir ac nid yn unig ar fewnbwn ac allbwn. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu fframwaith canlyniadau ar gyfer y ddau wasanaeth a fydd yn bodloni gofynion y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol sydd ar ddod, ond bydd hefyd yn gwella'r prosesau sicrhau ansawdd trwy ddarparu offeryn i ddangos a mesur cyflawniad y canlyniadau.

Meysydd o gynnydd

- Ymagwedd gorfforaethol at gynllunio a datblygu gwasanaethau.
- Gweithio mewn partneriaeth ac ar y cyd.
- Datblygu dull o fesur perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Meysydd i'w gwella

- Lefelau absenoldebau salwch y staff.

Darparu cyfeiriad:

Mae gan y cyngor un aelod arweiniol sy'n goruchwylio'r gwasanaethau i oedolion a'r gwasanaethau i blant. Mae hyn wedi bod yn bwysig er mwyn gallu deall meysydd y gwasanaeth a'r pwysau sy'n bodoli a lle mae gwasanaethau'n rhannu meysydd cyffredin, cyfathrebu effeithiol ag aelodau yn gyffredinol, ac o ran cefnogi deialog effeithiol ag arweinwyr gwleidyddol a sicrhau ymgysylltiad â hwy. Ceir perthynas effeithiol ag adrannau eraill a gwaith parhaus ar gyfer cynnal a datblygu mwy ar y rhain. Mae'r berthynas hon â'r adrannau eraill wedi bod yn ganolog o ran cefnogi'r adran i wneud penderfyniadau arwyddocaol ar gyfer llunio gwasanaethau a buddsoddi mewn datblygu pellach.

Yn ogystal â'r broses graffu arferol, mae'r cyngor yn cynnal "her gwasanaeth" bob tri mis. Mae hyn yn cynnwys aelodau ac uwch swyddogion y cyngor yn herio perfformiad pob maes gwasanaeth. Mae'r haen ychwanegol hon o graffu yn atgyfnerthu mwy ar y prosesau sicrhau ansawdd a gwerthuso perfformiad mewnol, yn ogystal â galluogi'r cyngor i sicrhau cyfrifoldeb ac atebolrwydd corfforaethol effeithiol.

Darperir arweinyddiaeth a chyfeiriad cryf a chyson gan y cyfarwyddwr corfforaethol ar gyfer moderneiddio a lles (cyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol) ar gyfer y tîm uwch reolwyr. Mae hyn, yn ei dro, yn cael ei drosglwyddo i ymarferwyr yn y ddau wasanaeth. Mae hyn yn gynyddol effeithiol o ran cefnogi'r

newidiadau mewn diwylliant ac ymarfer sydd eu hangen ar gyfer darparu'r rhaglen foderneiddio. Mae mwy o bwyslais wedi ei roi ar gyfathrebu rhwng y staff a'r rheolwyr, sydd wedi cefnogi'r gwelliannau yr adroddwyd amdanynt o ran ysbryd y staff ac ymgysylltiad â'r broses gwneud newidiadau.

Deallir bod cyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol yn bwriadu ymddeol y flwyddyn nesaf. O ystyried yr arweinyddiaeth gref y mae hi wedi ei darparu hyd yma, bydd yn bwysig rhoi sylw i gynllunio olyniaeth er mwyn cynnal y sbardun ar gyfer gwelliannau y mae'r cyngor wedi ei gyflawni yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ar bob lefel i raddau helaeth, er gwaethaf yr her y cyfeirir ati uchod ynglŷn â'r ymgysylltiad strategol â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r cyngor wedi bod yn effeithiol o ran arwain a chefnogi mentrau amlasiantaethol, er enghraifft, y prosiect Un Pwynt Mynediad. Mae trefniadau da wedi eu sefydlu yn gyffredinol ar gyfer ymagweddau corfforaethol ac ymrwymiad gan adrannau eraill i gefnogi mentrau i wella iechyd a lles pobl Sir Ddinbych.

Meysydd o gynnydd

- Arweinyddiaeth a chyfeiriad eglur a chyson.

Meysydd i'w datblygu

- Cynllunio olyniaeth ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix II: CSSIW evaluation 2012-13 - progress and areas for improvement

Tudalen 39

Shaping Services		
Areas of progress	Areas for improvement	How we are responding
<ul style="list-style-type: none"> • Development of market position statements to inform and support provision of services. • Progress in achieving implementation of the Single Point of Access. • Continued development of early intervention, preventative and reablement approach in adult social care. • Continued development of an early intervention model for children with clear links to a wide range of policy requirements. • Use of consultation to evaluate children and families experiences of services to assist in the further development of services. 	<p>Embedding the new structure fully into working practice.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • The Contract Management and Review Team is fully in place and has begun to undertake statutory reviews. • Intake and Reablement Teams are located within Locality Teams with regular opportunities for joint communication at the locality level. • Agreement has been reached on criteria for Complex Disability Team and cases have started to be referred more appropriately.
	<p>Establishing clear measurable outcomes to assist with the evaluation of existing and proposed service developments. Objectives should be focused on progress for children and families, and progress in meeting longer term service goals (eg to reduce the number of families requiring intensive and longer term intervention).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • A number of assessment and planning models are being implemented within Children and Family Services and the Families First programme that will enable the recording and monitoring of outcomes for children. The development of a performance management framework will enable the service to identify the impact of the investment in early intervention services on reducing the need for longer term intervention. In addition revisions currently being made to the case file audit process will ensure practitioners and managers are routinely monitoring and challenging progress made by individual children and families.
	<p>Development of domiciliary care market to reduce pressures on reablement service.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Following a period of monitoring, evaluation and research, Adult Services has recognised the need to re-focus the 'homecare' reablement service on the lower level, often acute needs of people and utilise occupational therapy skills in more complex reablement working with the independent sector, who provide most of the domiciliary care in Denbighshire. The development will include building staff competence and confidence in outcome focused care planning; running a pilot related to outcome-based commissioning with the independent sector; and re-considering the role of occupational therapy, social work and other skill mix within the Service.

Appendix II: CSSIW evaluation 2012-13 - progress and areas for improvement

Getting Help		
Areas of progress	Areas for improvement	How we are responding
<ul style="list-style-type: none"> Improved timescales for completion of assessments and sustained quality of assessments in children's services. Improved timeliness of reviews for adults receiving services. 	<p>Completion of a new service model for children with additional needs and their families</p>	<ul style="list-style-type: none"> A multi-agency disability services transformation programme has been established (with a dedicated programme board) that is focussing on service re-design and developing a range of services that are accessible and inclusive for children with disabilities and their families. Following from this the Children and Family Service will review its thresholds and service eligibility (particularly in light of the Social Services and Wellbeing Bill). In addition, we are supporting a pilot of a whole of life service within Flintshire using Collaboration funding.
	<p>Assessment and support to carers</p>	<ul style="list-style-type: none"> Within Children and Family Services, a sub-regional (Denbighshire, Conwy and Wrexham) young carers service will be commissioned from April 2014 onwards. In addition work has been undertaken in partnership with education and the schools to establish agreed protocols and processes for identifying and supporting more young carers. We have been heavily involved with the North Wales Carers Strategic Group in developing a North Wales Carers Information and Consultation Strategy, and this strategy is being launched on 29th November 2013. We have also committed an additional three years' funding for carers services in Adult & Business Services. Some of this money will be used to invest in a new role to provide community support for carers. We have also enhanced the carers assessor role to ensure that assessment of carers' needs is more effective.

Tudalen 40

Appendix II: CSSIW evaluation 2012-13 - progress and areas for improvement

Services Provided		
Areas of progress	Areas for improvement	How we are responding
<ul style="list-style-type: none"> The percentage of children in need whose plans are reviewed within timescales has substantially improved 	<p>Performance in relation to looked after children especially in relation to planning for permanence and placement stability</p>	<ul style="list-style-type: none"> The performance measure in relation to placement moves does not recognise positive placement moves (e.g. placed for adoption) which make up the majority of placement moves. A new foster carer recruitment campaign designed in collaboration with the corporate marketing team is in the process of being implemented which will enable the increase in foster carers recruited and thus providing more effective placement matching.
	<p>Evaluating the quality and impact of commissioned services in meeting needs and delivering objectives</p>	<ul style="list-style-type: none"> A new contract monitoring framework is being developed within Children and Family Services and the commissioned providers are developing a new model for reporting on progress against outcomes and impact on service users lives. Adult & Business Services have recently started to submit quarterly monitoring reports to the Scrutiny Chairs & Vice Chairs Group to raise awareness of issues identified through our monitoring of externalised services. Our 2014/15 Business Plan includes a project to "Improve Quality Assurance of outsourced services". This will include such actions as implementing a regional monitoring process.

Tudalen 41

Appendix II: CSSIW evaluation 2012-13 - progress and areas for improvement

Tudalen 42

Effect on People's Lives		
Areas of progress	Areas for improvement	How we are responding
<ul style="list-style-type: none"> • Increasing effectiveness of reablement service. • Clear business planning for adult services. • Effective use of internal audit processes in child protection. • Consultation with children and their families. 	<p>Deprivation of Liberty Safeguards (DoLS).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mental Capacity Act and DoLS Refresher sessions are being delivered to promote best practice for care providers – these are targeted at managers / deputies and supervisors from local authority and independent sector care providers. Two half day sessions planned for December 2013. • The Service Manager: Specialist Services has arranged to meet with the reviewing team to provide a briefing session on DoLS and links to reviews early in early 2014 - this may highlight some specific additional training needs. • DoLS procedure - guidance for staff due to be reviewed January 2014.
	<ul style="list-style-type: none"> • Health assessments and health care for looked after children. • Education assessment and support for looked after children. • Ensure timely and effective statutory reviews for looked after children. 	<ul style="list-style-type: none"> • The three areas of performance were affected due to staff vacating dedicated posts and poor responses to recruitment. All staff are now in post and performance is improving. A new suite of outcomes in relation to educational attainment will be developed in order to recognise the breadth educational attainment of looked after children (not purely qualification results)

Appendix II: CSSIW evaluation 2012-13 - progress and areas for improvement

Capacity		
Areas of progress	Areas for improvement	How we are responding
